EISTEDDFOD PENRHYNCOCH. 1964.

Bu llawer o ddyfalu
A phwyso fel moch
Wrth feddwl pwy gadd gadair
Yn 'Steddfod Penrhyncoch;
Ac o, y fath lawenydd
Megis rhyw newydd diwn -
Pa beth yn fwy dymunol
Na chael cadeirio June?
Ein llongyfarchion cynnes
A'n dymuniadau'n siwr,
Ac ar ôl ennill cadair
Fe ddylai ennill gŵr.

(D. Jenkins).

---

Bu naw o feirdd yn torchi crys
Yn llosgi glo a cholli chwys,
Yn ddiwyd griw bob un o'r bron
A'u llygaid ar y gadair hon.

Ond wyth dyn bach a deimla'n syn
Fe'u trechwyd gan Riannon Wyn,
Ac unwn ninnau yn yr ŵyl -
Henffych i brif-fardd hôff yr ŵyl.

(Elfed Davies)

---

I un a ŵyr am feddod serch
Mor rhwydd yw canu clodydd merch,
Ond trist yw'r beirdd gan faint eu siom-
Ni chyfyd cân o galon drom.
Rhy ddrwg yn wir, Rhiannon Wyn
Oedd llorio cystal beirdd a hyn.
Fel llawer bardd, ni faliwn i
A rhannu nghadair gyda thi.
Ap Gwilym oedd pencerdd ein henwlad gynt
Tramwyodd ein bro ar garwrol hynt,
Ond bellach ei lwch sydd mewn arall blwy
A thi a fydd prifardd ein henfro mwy.

(Huw Huws).

---

## <u>CÂN Y GADAIR</u>.

Bro Mebyd (Rhiannon Wyn).

Cerdd ddiodl – nodwedd amlycaf – cynildeb; gwaith graenus a gorffenedig. Y gerdd yn gafael. Gellir cwtogi ambell linell. Diweddglo campus. Dychymyg eang.

Cenaist i rymus acenion – y gerdd gref
Yn gerdd grym dirgelion.
Ie siwr, rhoest daw ar sôn
I weddill y prydyddion.

Stôl o waith a steil y Bwthyn – cadair bren
Cadair fro y Penrhyn.
Daw o dalent y delyn
Gân eto i'r bro a'r bryn.

Daw heno fflam d'awenau – yn bur
I oleuo'r bae,
I fro dreng daw hyfryd rin
Hen berganydd Brogynin.

(Vernon Jone